

**AIL ADRODDIAD BLYNYDDOL AR
WEITHREDU A RHOI AR WAITH RHAN 2
(CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014**

Yr Ail Adroddiad Blynyddol ar Weithredu a Rhoi ar Waith Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

Fe'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 23(1)(c) o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archive, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Fe'i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

RHAGAIR

Roedd Deddf Cymru 2014 yn gam cyntaf pwysig tuag at gyflawni trefn lywodraethol ddatganoledig wirioneddol atebol yng Nghymru. Dwy flynedd ar ôl mabwysiadu'r ddeddf, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a fu o ran rhoi'r pwerau benthyca a threthu a ddatganolwyd dan ran 2 o'r Ddeddf ar waith.

Rwyf yn grediniol y dylai Llywodraeth Cymru ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros sut y caiff arian ei godi yng Nghymru yn ogystal â sut y mae'n cael ei wario. Roedd Deddf Cymru yn darparu ar gyfer datganoli pwerau dros y dreth stamp a'r dreth dirlenwi i'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd y gwaith o drosglwyddo gweithrediad y trethi datganoledig newydd hyn yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r datganoli cyllidol rydym yn bwrw ymlaen ag ef ar gyfer Cymru yw'r trethi datganoledig hyn. Byddwn yn cwblhau'r broses drwy ddatganoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gymru. Mae Bil Cymru, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaethom yn Natganiad yr Hydref yn 2015 i ddileu'r gofyniad am gynnal refferendwm cyn datganoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac, os daw'r Bil yn ddeddf, byddwn yn dechrau gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Wrth gwrs, mae angen dod i gytundeb ynghylch rhai ystyriaethau ymarferol gyda Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig o ran sut y bydd grant bloc Cymru yn cael ei addasu i ystyried datganoli trethi. Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cynnal cyfarfodydd adeiladol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, o dan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (yng Nghymru), i drafod y trefniadau cyllido a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl datganoli'r pwerau trethu newydd. Mae'r naill Lywodraeth a'r llall yn awyddus iawn i ddod i gytundeb gan ein bod yn sylweddoli bod hwn yn gam hollbwysig yn natblygiad y Cynulliad.

Mae'r pwerau trethu a benthyca hyn yn rhan allweddol o'r setliad datganoli newydd yng Nghymru, sy'n seiliedig ar y sylfaen gadarn y mae Bil Cymru yn darparu ar ei chyfer ar ffurf model cadw pwerau.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS ALUN CAIRNS AS
YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

PENNOD 1

CYFLWYNIAD

Cwmpas a Chynnwys yr Adroddiad hwn

1. Hwn yw'r ail adroddiad ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 ers i'r Ddeddf gael cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.
2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - creu Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru;
 - datgymhwyso Treth Dir Treth Stamp y Deyrnas Unedig yng Nghymru a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
 - datgymhwyso Treth Dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar warediadau i safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
 - darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca; a'r
 - y pŵer i greu trethi datganoledig newydd.
3. Rhoddir y darpariaethau ariannol ar waith dros nifer o flynyddoedd ac mae'r amserlenni ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi wedi'u cynnwys yn y Papur Gorchymyn¹ a gyhoeddwyd gyda Bil Cymru ym mis Mawrth 2014.
4. Er mwyn i'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) gael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses hon, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar weithredu'r rhan hon o'r Ddeddf. Er mwyn i'r Senedd a'r Cynulliad wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth: mae gofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd i'r Senedd a darparu copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru. Mae gofyn i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad, rhoi adroddiad eu hunain i'r Cynulliad, a darparu copi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ'r Senedd. Bydd y ddwy Lywodraeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau tan ben-blwydd cyntaf y diwrnod y daeth darpariaethau olaf Rhan 2 i rym.
5. Yn unol ag Adran 23(7) o Ddeddf Cymru 2012, mae gofyn i'r adroddiadau blynyddol gynnwys:

(a) datganiad am y camau a gymerwyd, boed hynny gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad

¹ Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,

(b) datganiad am y camau y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed hynny gan y sawl sy'n gwneud yr adroddiad neu gan eraill, tuag at gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,

(c) asesiad o sut mae darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u cychwyn yn cael eu gweithredu,

(d) asesiad o sut mae unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian yn cael eu gweithredu, ac o unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd drwy'r Rhan hon,

(e) effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac

(f) unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.

6. Yn Atodiad A rhoddir rhestr o'r paragraffau yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi sylw i bob un o'r gofynion hyn. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn gyfyngedig i'r gofynion hyn, ac fe gaiff hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r naill Lywodraeth neu'r llall yn credu eu bod yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i'r Senedd ac i'r Cynulliad.

PENNOD 2

CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU

7. Sefydlwyd drwy Ddeddf Cymru 2014, yn amodol ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru, y caiff prif gyfraddau treth incwm y Deyrnas Unedig eu gostwng 10c i'r rheini sy'n cael eu diffinio'n drethdalwyr Cymru, ac y bydd y Cynulliad yn cael gosod, bob blwyddyn, Gyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru a gaiff eu hychwanegu at gyfraddau gostyngol y Deyrnas Unedig. Bydd gweddill y strwythur treth incwm yn aros yn fater na fydd wedi'i ddatganoli, ac yn parhau i gael ei benderfynu gan Senedd y DU.
8. Yn yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref yn 2015, dywedwyd y byddwn yn deddfu i ddileu'r gofyniad i gynnal refferendwm er mwyn rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith. Bydd Bil Cymru, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith.
9. Mae'r Llywodraeth mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn ymgymryd â'r pwerau hyn yng ngoleuni'r penderfyniad hwn, gan gynnwys sut y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei haddasu i ystyried datganoli trethi.

PENNOD 3

TRETHI TRAFODIADAU TIR A GWAREDU I SAFLEOEDD TIRLENWI YNG NGHYMRU

Cyflwyniad

10. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp (TDDS) a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno Treth Trafodiadau Tir (TTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), a disgwylir y caiff y rhain eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018. O'r adeg honno ymlaen, ni fydd trethi'r Deyrnas Unedig yn berthnasol yng Nghymru ac fe gaiff grant bloc Cymru ei addasu i wneud iawn am hyn.

Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith

11. Cyflwynwyd y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) i'r Cynulliad ar 12 Medi 2016. Cyflwynwyd Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) i'r Cynulliad ar 28 Tachwedd 2016.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu corff newydd - Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) - i oruchwylio gweinyddu ei threthi datganoledig. Ym mis Ebrill, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys sefydlu ACC.

13. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn ystyried gofyn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) (weinyddu'r TTT ond erbyn hyn mae wedi cadarnhau mai ACC fydd yn gweinyddu'r TTT a'r TGT, gan gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru ar weithgareddau sicrhau cydymffurfiaid y TGT, a bydd HMRC yn darparu gwybodaeth ac arbenigedd ar ffurf benthyciadau a secondiadau i ddatblygu a chryfhau arbenigedd ACC yng nghyswllt cydymffurfio â'r TTT.

14. Mae HMRC a Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos ar faterion cyfreithiol, gweithredol a threth er mwyn sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo i drethi datganoledig yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau i roi hyn ar waith i HMRC .

15. Sefydlwyd prosiect ar y cyd gan HMRC i reoli'r broses o ddatgymhwyso'r TDDS a'r Dreth Dirlenwi a throsglwyddo i TTT a TGT yng Nghymru. Mae cyd-fwrdd y prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o HMRC a Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau

er mwyn sicrhau bod y prosiect yn darparu atebion effeithiol a gwerth am arian.

16. Mae gwaith cynnar ar y prosiect wedi canolbwyntio ar sut y bydd datgymhwyso'r TDDS yng Nghymru yn effeithio ar systemau a phrosesau presennol HMRC o 2018 ymlaen. Nid oes angen newid systemau TG i drosglwyddo i TGT; bydd ymarfer cyfathrebu ar y cyd yn hysbysu rhanddeiliaid allweddol o'r newidiadau.
17. Mae HMRC wedi'i gynrychioli ar Fwrdd Prosiect Polisiâu Gweithredol Llywodraeth Cymru, sy'n rhan o Raglen Gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru i sefydlu ACC. Mae cynrychiolaeth o'r fath yn golygu bod HMRC a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r prif benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ac yn hwyluso dull cydweithredol a chydlynol o gyflawni'r prosiect.

Camau pellach i'w cymryd tuag at roi'r darpariaethau ar waith

18. Yn 2017, llunnir cynlluniau manwl ar gyfer gwneud newidiadau technegol i'r systemau presennol i ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru. Byddwn yn mynd ati hefyd i gynhyrchu amcangyfrif o gost y gwaith hwn, gan gynnwys amcangyfrifon gan gyflenwyr. Byddwn yn llunio cydgynllun cyfathrebu gydag ACC er mwyn hysbysu rhanddeiliaid o'r newidiadau.
19. O ran y Dreth Dirlenwi, bydd HMRC yn canolbwyntio ar baratoi i drosglwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn i'r Cynulliad dros drethu yng nghyswllt gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen. Datblygir cydgynllun cyfathrebu i roi gwybodaeth i weithredwyr y Dreth Dirlenwi a defnyddwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru.
20. Bydd HMRC hefyd yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i feithrin eu gallu drwy ddarparu rhagor o gymorth i bobl ddeall sut mae HMRC yn gweinyddu trethi, yn enwedig ynghylch materion sy'n berthnasol i Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi.
21. Wrth ddatganoli'r ddwy dreth, bydd y grant bloc yn cael ei addasu i wneud iawn am y newid.

PENNOD 4

PWERAU BENTHYCA

22. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthycu arian at y dibenion a ganlyn o fis Ebrill 2018 ymlaen

- Yn y Ddeddf, roedd pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500m. Gall Gweinidogion Cymru fenthycu o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw).
- Roedd y Ddeddf yn ehangu'r amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthycu arian ar draws blynnyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynnyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod hyd at £200m bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500m) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd.
- Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy'n golygu y gall Llywodraeth Cymru fenthycu hyd at £500m i gyllido buddsoddiad cyfalaf. Gall fenthycu gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, banciau masnachol neu drwy ddyroddiadau bond. O fewn y trothwy cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthycu hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o 2018-19 ymlaen). Gall hefyd ddefnyddio'r pwerau benthyca yn gynnar er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os yw'n dewis gwneud hynny). Rhaid i'r symiau y gall Llywodraeth Cymru eu benthyca ar gyfer y diben hwn cyn 2018-19 gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith

23. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau yr hoffai allu manteisio ar ddefnyddio'r pwerau benthyca yn gynnar er mwyn cyllido gwelliannau i'r M4. Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cytuno y caiff Llywodraeth Cymru wneud ceisiadau am fenthycu o 1af Ionawr 2017 ymlaen.

24. Cyn Ebrill 2018, fel y nodwyd yn 'Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru', bydd Llywodraeth y DU hefyd yn deddfu bod y ffynonellau ar gyfer benthyciadau cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn cael eu hehangu fel bod modd iddi ddyroddi bondiau.

PENNOD 5

PŴER I GREU TRETHI NEWYDD

25. Gyda chytundeb y ddwy lywodraeth, gellir datganoli rhagor o drethi sy'n bodoli eisoes yn awr drwy is-ddeddfwriaeth ac mae'r Cynulliad yn gallu cyflwyno trethi newydd penodol-i-Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cefnogi'r esblygu parhaus yng nghyswllt cyfrifoldebau datganoledig ac maent yn rhoi ffordd newydd i'r Cynulliad wireddu canlyniadau polisi, yn ogystal, o bosib, â chodi cyllid ychwanegol.
26. O ran trethi newydd penodol-i-Gymru, roedd y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2013 yn nodi proses asesu arfaethedig llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys i ba raddau roedd y trethi newydd yn gwneud y canlynol:
- effeithio ar bolisi ariannol neu facro-economaidd y DU a/neu'r farchnad sengl
 - efallai beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE
 - cynyddu'r risg o osgoi trethi
 - creu baich cydymffurfio ychwanegol ar fusnesau a/neu unigolion
 - yn gyson â chyfrifoldebau datganoledig.

Camau a gymerwyd tuag at roi hyn ar waith

27. Daeth y pŵer hwn i rym ar yr un dyddiad â Deddf Cymru 2014 ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio hyd yma.

PENNOD 6

EFFAITH PWERAU NEWYDD AR GRANT BLOC CYMRU

28. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli trethi yw bod elfen o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid am y gallu i godi trethi. Ar hyn o bryd, mae Cyd-bwyllgor Trysorlys (Cymru) yn y broses o gytuno ar y trefniadau ar gyfer addasiadau i'r grant bloc yng nghyswllt Deddf Cymru 2014.
29. Mae'r ddwy lywodraeth yn ceisio cytuno ar drefniadau cyllido newydd, sy'n cynnwys y canlynol:
- Yr addasiad i'r grant bloc ochr yn ochr â datganoli trethi
 - Sut mae'r addasiad hwn yn rhyngweithio â fformiwla Barnett a'r cyllid gwaelodol
 - A ddylid newid trothwy benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru
 - Yr adnoddau y bydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb
30. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trysorlys (Cymru) yn 2014 i oruchwylio'r broses o drosglwyddo pwerau ariannol i Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n cynrychioli Llywodraeth y DU. Hyd yma, mae wedi cyfarfod tair gwaith yn ystod hydref 2016 i ystyried y trefniadau newydd hyn, gan gyhoeddi communiqué² ar ôl pob cyfarfod.

² <https://www.gov.uk/government/news/ministerial-meeting-on-the-welsh-governments-new-funding-arrangements>

<https://www.gov.uk/government/news/second-ministerial-meeting-on-the-welsh-governments-new-funding-arrangements>

<https://www.gov.uk/government/news/third-ministerial-meeting-on-the-welsh-governments-new-funding-arrangements>

PENNOD 7

GWEITHGAREDDAU ERAILL TUAG AT ROI HYN AR WAITH

Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (y Swyddfa)

31. Dechreuodd y Swyddfa gyhoeddi rhagolygon ar gyfer trethi Cymru ochr yn ochr â Datganiad yr Hydref yn 2014 a bydd yn parhau i gyhoeddi'r rhagolygon hyn ddwywaith y flwyddyn. Roedd y rhagolygon yn Natganiad yr Hydref yn 2016 yn adlewyrchu'r trethi a ddatganolir i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2014, gan gynnwys 10 ceiniog ym mhob band treth incwm.

Cronfa Wrth Gefn

32. Roedd y Papur Gorchymyn (troednodyn 1) yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru dalu'r dreth sy'n weddill i gronfa wrth gefn i'w helpu i reoli sefyllfa gyfnewidiol ei chyllideb a fydd yn codi yn sgil ei phwerau trethu newydd.

33. Bydd y gronfa wrth gefn yn dod yn weithredol, ochr yn ochr â datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn 2018.

PENNOD 8

GOFYNION ADRODD ERAILL

34. Yn ogystal â'r meysydd a drafodwyd yn y penodau blaenorol (camau a gymerwyd tuag at weithredu, camau sydd eto i'w cymryd, ac effaith y darpariaethau ar y grant bloc), mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiadau blynyddol ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

- asesiad o weithrediad y darpariaethau yn Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
- asesiad o weithrediad unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthycu arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd yn sgil Rhan 2;
- datganiad ynglŷn ag effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
- unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.

35. Yr adroddiad hwn yw'r ail adroddiad ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi, yn unol ag adran 29(2)(b) o'r Ddeddf, fod holl ddarpariaethau Rhan 2 wedi dod i rym ddau fis ar ôl deddfu ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i Gyfraddau Treth Incwm Cymru a benthyca gan Weinidogion Cymru. Bydd gofyn cael Gorchymynion gan Drysorlys EM ar gyfer y darpariaethau benthyca cyn eu rhoi ar waith yn llwyr. Felly, asesir sut y rhoddir y darpariaethau benthyca ar waith mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

36. Fel y nodwyd uchod, mae Bil Cymru, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith. Felly, cyn y gellir rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, bydd angen Gorchymyn gan Weinidogion y Trysorlys.

37. Yn ogystal â darpariaethau Deddf Cymru 2014, datganolwyd Ardrethi Annomestig yn llwyr ar 1 Ebrill 2015, yn unol ag argymhellion Comisiwn Silk. Er bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod yr ardrethi (ac felly nid oedd angen cael deddfwriaeth yn Neddf Cymru 2014), nid oedd y cyllid a gynhyrwyd yn cael effaith uniongyrchol ar y cyllid oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Ers mis Ebrill 2015, a'r drefn wedi'i datganoli llawn, bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'r holl Ardrethi Annomestig a gynhyrchir yng Nghymru yn hytrach na chyfran o'r newidiadau yng ngwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar sail y boblogaeth, a ariennir drwy Drethi Annomestig Lloegr.

CASGLIAD

38. Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn pennu y dylid gosod yr Adroddiad Blynyddol ar weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf honno a'i rhoi ar waith ar ben-blwydd y dyddiad y cafwyd Cydsyniad Brenhinol neu cyn hynny (17 Rhagfyr 2014).
39. Eleni, gwelwyd mwy o gynnydd tuag at weithredu Deddf Cymru 2014 yn llawn. Mae'r Llywodraeth yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i drethi datganoledig yn mynd rhagddi yn ddidrafferth. Mae Cyd-bwyllgor Trysorlys (Cymru) yn y broses o gytuno ar y trefniadau ar gyfer addasiadau i'r grant bloc ar hyn o bryd.
40. Yn ogystal, mae Bil Cymru, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn datganoli'r dreth incwm i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Llywodraeth mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn ymgymryd â'r pwerau hyn yn y dyfodol, gan gynnwys yr effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru.
41. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn unol ag Adran 23(3)(b) o'r Ddeddf, cyn 17 Rhagfyr 2017.

Atodiad A - Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014 ac ymhle y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn

1. *datganiad o'r camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

Pennod 2: Paragraff 8

Pennod 3: Paragraffau 11-17

Pennod 4: Paragraff 23

Pennod 5: Paragraff 26

2. *datganiad o'r camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

Pennod 2: Paragraff 9

Pennod 3: Paragraffau 18-21

Pennod 4: Paragraff 24

3. *asesiad o weithrediad darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*
gweler Pennod 8

4. *asesiad o weithrediad unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gynhwyswyd neu a ddiwygiwyd yn sgil y Rhan hon,*

gweler Pennod 8

5. *datganiad ynglŷn ag effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 200 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac*

gweler Pennod 8

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

gweler Pennod 8